

Cwestiynau Cyffredin

Gweminar Mathau o Ymddeoliadau CPLIL



Cwestiynau a Ofynnwyd

Cyfuno Cofnodion CPLIL	5
Os ydw i wedi symud o un gronfa CPLIL i'r llall, a fyddant yn cael eu cyfuno'n awtomatig i un 'pot pensiwn' hyd yn oed os oes bylchau mewn cyflogaeth, neu a oes angen i mi gysylltu â rhywun i sicrhau fod hyn yn digwydd?	5
A oes modd cyfuno dau neu fwy o bensiynau CPLIL?	5
A oes modd trosglwyddo pensiwn blaenorol i'r pensiwn CPLIL? Er enghraifft, y GIG, cynllun pensiwn preifat, gwasanaeth sifil, pensiynau galwedigaethol y sector preifat, pensiwn banc?	5
Rwyf wedi derbyn gorchymyn rhannu pensiwn yn ddiweddar yn sgil ysgariad, sydd wedi gostwng fy mhensiwn. Mae gennyf hefyd bensiwn gyda chyflogwr blaenorol, a fyddai'n fuddiol i mi symud y swm cyfan i'r CPLIL i dalu am y golled yn sgil y gorchymyn rhannu tra rwy'n dal i weithio?	6
Eglurwch fwy am drosglwyddo buddion CPLIL allan.....	6
Rwyf wedi colli allan ar sawl blwyddyn o dalu i mewn i'm pensiwn. A oes modd i mi wneud taliadau ychwanegol i'm pensiwn i wneud yn iawn am y blynyddoedd hyn a gollais?.....	7
A yw'r cyflogwr yn talu cyfraniadau cyfatebol i CPY?	8
Mae gennyf CGY gyda Prudential, a oes rhaid i mi hawlio hwn ar wahân, neu a fydd y cyflogwr/cronfa bensiynau yn gwneud hyn?	8
Beth yw'r amser prosesu ar gyfer cais pensiwn newydd? Faint o rybudd sydd ei angen ar y CPLIL i dalu hwn?.....	8
A fedrwnch hi barhau i weithio yn rhywle arall wrth gymryd eich pensiwn?	9
A fyddai modd i mi dynnu pensiwn o gynllun CPLIL arall a pharhau i weithio yn fy swydd bresennol gan gyfrannu at fy mhensiwn gweithredol presennol?	9
A oes modd i mi ohirio fy muddion pensiwn am sawl blwyddyn os ydw i'n gadael y cwmni a chymryd fy mhensiwn yn hwyrach?.....	9
Ai 65 neu 67 ydych chi'n ei olygu ag oedran ymddeol?.....	9
Os ydw i'n ymddeol yn gynnar, a fydd y gostyngiad pensiwn blynyddol yn gostwng bob blwyddyn nes byddaf yn 65 oed? Er enghraifft, unwaith y byddaf yn 65, a fydd y pensiwn ar y gyfradd lawn?	10
Nodwch y tabl canran gostyngiadau yn y Cwestiynau Cyffredin pan fyddwch yn ei anfon.	10
A yw'r gostyngiadau mewn pensiwn yn cael eu heffeithio gan gyfraniadau neu aelodaeth?	10
Dydwi ddim yn deall y gwahaniaeth rhwng gostyngiad ar gyfer taliad cynnar, a pheidio â derbyn cynnydd yn eich pensiwn wrth ymddeol y gynnar.	11
Os byddaf yn derbyn pensiwn is a chyfandaliad uwch, beth fyddai'r cyfandaliad di-dreth uchaf?.....	11

Os yw'r dyddiad yr wyf yn gadael fy swydd â'r Cyngor ar ddiwrnod olaf y mis, a fydd fy mhensiwn yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y mis nesaf? Mae'r wybodaeth a welais yn nodi y byddai'r pensiwn yn dechrau ar fy niwrnod gadael, ond siawns fy mod yn dal i weithio bryd hynny?.....	11
I gadarnhau felly, os ydw i'n cymryd ymddeoliad hyblyg, a fydd fy nghyflogwr yn sefydlu pensiwn newydd i mi yn awtomatig?	12
A allaf gymryd ymddeoliad hyblyg ar ôl oedran pensiwn y wladwriaeth?	12
Os byddaf yn cymryd ymddeoliad hyblyg, credaf fod yn rhaid i mi gymryd fy holl hawliau pensiwn a gronnwyd hyd at 2008. Os byddaf yn dewis gadael y gweddill am ychydig flynyddoedd, a fydd hynny'n lleihau'r gostyngiadau ymddeoliad cynnar?	12
A fedrwch chi fynd dros y rheolau diswyddo eto?	12
A yw'r cyfeiriad at ddiswyddo ar sleid 6 yn berthnasol i ddiswyddiad gwirfoddol?	13
Os ydw i'n cael fy niswyddo ac yn hŷn na 55 oed, a fydd fy nghronfa CPLIL yn mynd drwy'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer arian parod di-dreth ychwanegol ac opsiynau eraill?	13
A fydd unrhyw daliadau diswyddo'n cael eu defnyddio i brynu pensiwn CPLIL ychwanegol?	13
Os oes gennyf bensiwn gohiriedig ag ALI arall a'm bod yn cael fy niswyddo, a yw'r pensiwn gohiriedig yn ogystal â'r cynllun cyfredol yn destun rheolau diswyddo?	13
Os byddaf yn gadael fy nghyflogwr ac yn cymryd fy mhensiwn, a oes modd i mi weithio iddyn nhw'n achlysurol yn y dyfodol a pharhau i dderbyn fy mhensiwn?	14
Beth mae'r Rheol 85 yn ei olygu?	14
A yw'r Rheol 85 yn berthnasol heb ganiatâd y cyflogwr os ydw i'n 55+ oed?	14
Mae'r Rheol 85 yn berthnasol heb ganiatâd y cyflogwr i bobl sy'n 60 oed neu'n hŷn. A fydd y cyfyngiad oedran hwn yn cynyddu o fis Ebrill 2028 yn unol â'r cynnydd i'r oedran ymddeol isaf i 57?	14
Rheol 85 = eich oedran + blynyddoedd o wasanaeth. A yw hyn yn golygu blynyddoedd o wasanaeth neu nifer y blynyddoedd yr ydych wedi bod yn talu cyfraniadau pensiwn?.....	15
A yw'r Rheol 85 yn berthnasol i wasanaeth parhaus yn unig neu gyfanswm y gwasanaeth llywodraeth leol?	15
A yw eich cyflogwr yn gwybod os yw'r rheol 85 yn eich gwarchod, neu ai cyfrifoldeb yr unigolyn yw darganfod hyn?	15
A yw taliadau pensiwn yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r Mynegai Prisïau Defnyddwyr?	15
A yw gwasanaeth yn golygu'r pensiwn penodol hwn? Neu ers faint ydych chi wedi bod yn cael eich cyflogi?	15
A oes modd newid swydd a phenderfynu defnyddio'r un darparwr Pensiwn?	16
A yw'r adnodd rhagweld buddiannau yn cynnwys asesiad McCloud?	16
Os ydych chi'n troi'n 55 cyn Ebrill 2018, a yw'r rheol ymddeoliad cynnar 57 yn berthnasol?	16

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

A yw'r pensiwn wedi'i warchod ar gyfer y rhai sy'n bwriadu cymryd eu pensiwn yn 55 oed ond sydd bellach yn gorfod aros tan maent yn 57 oed?	16
A ydym yn gwybod a oes cynlluniau i gynnig cyfnod pontio ar gyfer newid yr oedran pensiwn isaf o 55 i 57?	16
A oes uchafswm o ran nifer y blynyddoedd o dalu i mewn i'r CPLIL lle na fyddai unrhyw fuddion pellach, er enghraifft, pe baech wedi bod yn aelod am 40 mlynedd?	17
Os nad ydych yn cael cyfandaliad gan bensiwn arall ond yn derbyn taliadau rheolaidd, a oes angen rhannu hyn?	17
Beth fyddai'n digwydd i'm pensiwn pe bawn yn marw heb ŵr neu wraig?	17
Dolenni a manylion cyswllt defnyddiol	18

Cyfuno Cofnodion CPLIL

Os ydw i wedi symud o un gronfa CPLIL i'r llall, a fyddant yn cael eu cyfuno'n awtomatig i un 'pot pensiwn' hyd yn oed os oes bylchau mewn cyflogaeth, neu a oes angen i mi gysylltu â rhywun i sicrhau fod hyn yn digwydd?

Ni fydd eich cronfa CPLIL bresennol yn gwybod bod gennych fuddion CPLIL yn rhywle arall os nad ydych chi'n dweud wrthyn nhw. Cysylltwch â'ch cronfa CPLIL bresennol i weld a oes modd cyfuno'r buddion hyn rŵan.

A oes modd cyfuno dau neu fwy o bensiynau CPLIL?

Fel rheol, mae modd ichi gyfuno dau neu fwy o bensiynau yn y CPLIL. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch cronfa bensiwn bresennol am y buddion blaenorol a sôn fod gennych ddiddordeb yn eu cyfuno. Wedyn, bydd eich cronfa bresennol yn cychwyn y drefn o gyfuno'r buddion ac yn cysylltu â'r gronfa arall yn y CPLIL ar eich rhan. Efallai y bydd angen i chi lenwi ffurflen i roi caniatâd i'ch cronfa bresennol gysylltu â'r un flaenorol.

Trosglwyddo pensiynau eraill i ac o'r CPLIL

A oes modd trosglwyddo pensiwn blaenorol i'r pensiwn CPLIL? Er enghraifft, y GIG, cynllun pensiwn preifat, gwasanaeth sifil, pensiynau galwedigaethol y sector preifat, pensiwn banc?

Pan fyddwch yn ymuno â'ch cronfa CPLIL, mae gennych 12 mis i ddechrau trosglwyddo unrhyw bensiynau blaenorol. Mae gan eich cyflogwr ddisgresiwn i ymestyn y dyddiad cau hwn, ond does dim rhaid iddynt wneud hynny.

Yn gyntaf, dylech lenwi Ffurflen Awdurdodi Trosglwyddiad ar gyfer pob pensiwn yr ydych eisiau eu trosglwyddo.

Mae derbyn eich ffurflen yn galluogi eich cronfa CPLIL i siarad â'ch darparwyr pensiwn eraill a gofyn iddynt drosglwyddo gwerth y pensiwn sydd gennych chi gyda nhw. Unwaith y bydd eich cronfa CPLIL yn ymwybodol o'r gwerth, gallant roi gwybod i chi faint o bensiwn blynyddol fyddai hynny'n ei brynu i chi yn y CPLIL.

Bydd yn rhaid i chi lenwi mwy o ffurflenni os byddwch yn dewis bwrw ymlaen â'r trosglwyddiad.

Rwyf wedi derbyn gorchymyn rhannu pensiwn yn ddiweddar yn sgil ysgariad, sydd wedi gostwng fy mhensiwn. Mae gennyf hefyd bensiwn gyda chyflogwr blaenorol, a fyddai'n fuddiol i mi symud y swm cyfan i'r CPLIL i dalu am y golled yn sgil y gorchymyn rhannu tra rwy'n dal i weithio?

Bydd trosglwyddo pensiynau blaenorol i'r CPLIL yn cynyddu gwerth eich buddion CPLIL. Fodd bynnag, dim ond 12 mis fydd gennych chi ar ôl ymuno i ddechrau trosglwyddo unrhyw bensiynau blaenorol. Mae gan eich cyflogwr ddisgresiwn i ymestyn y dyddiad cau hwn, ond does dim rhaid iddynt wneud hynny.

Nid ydym wedi'n trwyddedu i ddarparu cyngor ariannol. Os oes arnoch chi angen cymorth, mae'n bosibl y bydd y Cyrff hyn yn gallu eich helpu chi:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financialadvisers/choosing-a-financial-adviser?source=ma>

Beth yw'r manteision a'r anfanteision o gyfuno fy mhensiynau?

Mae pob achos yn benodol ac yn unigol iawn i'r aelod penodol o'r CPLIL. Dylech gadw llygad allan ar bethau fel:

- Bydd y trosglwyddiad yn prynu mwy o bensiwn CPLIL i chi, a fydd yn cynyddu eich pensiwn CPLIL pan fyddwch yn ymddeol. A yw'r pensiwn CPLIL a geir drwy'r trosglwyddiad yn uwch na'r pensiwn a geir drwy ei adael â'ch darparwr blaenorol?
- A ydych yn colli allan ar oedran ymddeol arferol yn y cynllun arall sy'n is nag oedran pensiwn y wladwriaeth?
- Bydd pensiynau a drosglwyddir i'r CPLIL yn ffurfio pensiwn CPLIL. Mae pensiwn y CPLIL yn cynyddu mewn gwerth yn seiliedig ar gynyddiadau mewn costau byw. A yw'r pensiwn â'ch darparwr blaenorol yn cynyddu yn unol â chostau byw?

Cofiwch os gwelwch yn dda, nid ydym wedi'n trwyddedu i ddarparu cyngor ariannol.

Eglurwch fwy am drosglwyddo buddion CPLIL allan.

Gallwch ond trosglwyddo eich buddion pensiwn i gynllun pensiwn arall os ydych wedi stopio talu cyfraniadau i'ch cronfa CPLIL. Y prif fathau o drosglwyddo allan yw:

- Cronfa CPLIL arall
- Cynllun pensiwn sector cyhoeddus arall (er enghraifft, Athrawon, y GIG)
- Cynllun pensiwn personol neu breifat

Os ydych eisiau trosglwyddo allan, mae'n rhaid i chi wneud hyn o leiaf 12 mis cyn eich oedran ymddeol arferol yn y CPLIL. Eich oedran ymddeol arferol yw naill ai oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu 65 oed, pa un bynnag yw'r hynaf.

Dyma'r camau tuag at drefnu trosglwyddiad:

1. Gwiriwch gyda'ch darparwr pensiwn newydd y byddant yn derbyn trosglwyddiadau a'ch bod o fewn unrhyw ddyddiad cau sydd ganddynt ar gyfer eu derbyn.
2. Os felly, rhowch wybod i'ch darparwr pensiwn newydd i gysylltu â'ch cronfa CPLIL ar eich rhan, i gael dyfynbris trosglwyddo. Efallai bod ganddynt broses ar-lein neu ffurflen i chi wneud hyn.
3. Bydd eich cronfa CPLIL yn cyfrifo'r dyfynbris ac yn ei roi i'ch darparwr pensiwn newydd. Byddant yn rhoi gwybod i chi pa fuddion pensiwn y byddai'r trosglwyddiad yn ei brynu yn eu cynllun.

Bydd dyfynbris trosglwyddo'r CPLIL yn berthnasol am 3 mis. Cofiwch nad yw gofyn am ddyfynbris yn golygu bod rhaid i chi fwrw ymlaen gyda'r trosglwyddiad. Rhowch ystyriaeth i'ch opsiynau'n ofalus, a throsglwyddwch dim ond os ydych yn sicr mai dyma'r cam cywir i chi. Dylech ofyn am gyngor ariannol os byddwch ei angen.

Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Rwyf wedi colli allan ar sawl blwyddyn o dalu i mewn i'm pensiwn. A oes modd i mi wneud taliadau ychwanegol i'm pensiwn i wneud yn iawn am y blynyddoedd hyn a gollais?

Os hoffech chi gynyddu gwerth eich pensiwn ar gyfer eich ymddeoliad, gallwch wneud hyn drwy Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY): Os hoffech chi brynu pensiwn blynyddol ychwanegol drwy CPY, ymwelwch â:

<https://www.lgpsmember.org/help-and-support/tools-and-calculators/buy-extra-pension-calculator/> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Cyfrifiannell CPY ar-lein a ddefnyddir i benderfynu p'un a hoffech chi dalu CPY a faint fyddai'n ei gostio i chi yw hwn. Os ydych chi'n hapus â'r ffigyrau ar y gyfrifiannell, mae ffurflen y gallwch ei chwblhau drwy'r gyfrifiannell. Dylech gwblhau a dychwelyd y ffurflen i'r gronfa CPLIL. Fel rhan o broses eich cronfa CPLIL, bydd yn rhaid i chi gael tystysgrif feddygol wedi'i llofnodi gan eich meddyg (chi fydd yn talu am hon) i gadarnhau bod eich iechyd yn gymharol dda cyn y gallwch chi ddechrau talu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol.

CGY: Cysylltwch â'r gronfa CPLIL yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r dudalen olaf ar y Cwestiynau Cyffredin hyn. Byddant yn rhoi gwybod i chi pwy yw eu darparwr CGY a sut i sefydlu un.

A yw'r cyflogwr yn talu cyfraniadau cyfatebol i CPY?

Nac ydi, nid yw'n ofynnol gan y gyfraith i'ch cyflogwr gynyddu eu cyfraniadau os ydych yn dechrau gwneud CPY neu CGY. Fodd bynnag, fe ddylai pob cyflogwr gael polisi ar gyfer p'un a ydynt yn cynnig Rhannu Cost CPY a Rhannu Cost CGY. Dylech siarad ag adran AD eich cyflogwr yn uniongyrchol i weld beth yw eu polisi nhw ar hyn. Mae rhannu cost yn golygu y byddai eich cyflogwr yn talu i'ch CPY neu CGY gyda chi. Gan nad yw'n orfodol, bydd yn rhaid i chi wirio p'un a yw hyn yn rhywbeth y mae eich cyflogwr yn ei gynnig ac ar ba delerau.

Mae gennyf CGY gyda Prudential, a oes rhaid i mi hawlio hwn ar wahân, neu a fydd y cyflogwr/cronfa bensiynau yn gwneud hyn?

Bydd eich cronfa CPLIL yn cysylltu â Prudential (neu ddarparwr CGY arall) fel rhan o'r broses ymddeol. Bydd gwerth eich CGY wedi'i gynnwys yn eich gwaith papur ymddeol o'ch cronfa CPLIL.

Ymddeoliadau**Beth yw'r amser prosesu ar gyfer cais pensiwn newydd? Faint o rybudd sydd ei angen ar y CPLIL i dalu hwn?**

Nid oes rhaid i chi roi rhybudd i'ch cronfa CPLIL eich bod yn bwriadu gadael eich swydd a chymryd eich pensiwn. Pan fyddwch yn rhoi eich rhybudd i'ch cyflogwr, bydd hyn yn arwain at gyfres o ddigwyddiadau:

- Fe fydd eich cyflogwr yn anfon eich ffurflen ymadael at eich cronfa CPLIL ar ôl i chi adael eich swydd a chael eich cyflog terfynol.
- Bydd eich cronfa CPLIL yn defnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen ymadael i gyfrifo gwerth eich buddion pensiwn. Yna caiff y ffigurau hyn eu gwirio eto cyn cael eu hanfon atoch chi.
- Bydd eich cronfa CPLIL yn anfon amcangyfrif ymddeol atoch a ffurflenni i'w cwblhau gennych. Os ydych chi'n defnyddio'r porth pensiwn ar-lein, byddwn yn anfon e-bost atoch chi gyda chyfarwyddiadau ar sut i gael gafael ar y pecyn. Fel arall fe wnawn ei bostio i'ch cyfeiriad cartref.
- Darllenwch eich opsiynau ymddeol ar y llythyr yn ofalus. Bydd yn rhaid i chi lenwi a dychwelyd y ffurflenni ymddeol. Mae'n rhaid i chi hefyd anfon copïau o unrhyw dystysgrifau perthnasol atom. Er enghraifft, gallwch anfon eich tystysgrif geni, trwydded yrru, neu basbort i roi tystiolaeth o'ch dyddiad geni. Bydd yn rhaid i chi hefyd anfon tystysgrif geni eich partner atom (lle bo hynny'n berthnasol), eich tystysgrif priodas, tystysgrif partneriaeth sifil neu eich gorchymyn terfynol. Sylwer: arferai'r gorchymyn terfynol gael ei alw'n archddyfarniad absoliwt.
- Ar ôl derbyn eich ffurflenni cyflawn, bydd cronfa CPLIL yn cyfrifo eich pensiwn yn seiliedig ar y dewis yr ydych wedi'i nodi ar eich ffurflen opsiynau.

- Bydd eich CPLIL yn talu eich pensiwn ac unrhyw gyfandaliad mewn i'r banc gan ddefnyddio manylion y cyfrif yr ydych wedi'u darparu i ni.

A fedrwch hi barhau i weithio yn rhywle arall wrth gymryd eich pensiwn?

Os oes gan eich cyflogwr newydd gynllun gwahanol fel eu pensiwn gwaith, bydd eich pensiwn CPLIL yn aros yr un fath. Nid oes angen i chi roi unrhyw fanylion i ni am eich swydd newydd.

Os yw eich cyflogwr newydd yn defnyddio CPLIL fel eu pensiwn gwaith, rhaid i chi ddweud wrth eich cronfa CPLIL am eich swydd newydd, p'un a ydych yn dewis ail-ymuno â'r cynllun pensiwn ai peidio. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid lleihau eich CPLIL neu ddod â'r pensiwn i ben yn ddibynol ar eich polisi.

A fyddai modd i mi dynnu pensiwn o gynllun CPLIL arall a pharhau i weithio yn fy swydd bresennol gan gyfrannu at fy mhensiwn gweithredol presennol?

Bydd yn rhaid i chi siarad â'r gronfa CPLIL y byddwch yn derbyn y pensiwn ganddynt i roi gwybod iddynt eich bod yn dal i dalu cyfraniadau CPLIL i gynllun arall. Mae gan bob cronfa CPLIL eu polisi eu hunain o ran p'un a oes angen iddynt leihau neu ddod â phensiwn CPLIL i ben os yw'r pensynwr yn dal i dalu cyfraniadau CPLIL i mewn i rywle arall.

A oes modd i mi ohirio fy muddion pensiwn am sawl blwyddyn os ydw i'n gadael y cwmni a chymryd fy mhensiwn yn hwyrach?

Oes, mae llawer o aelodau'r Cynllun yn ymadael cyn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth ac yn gohirio cymryd eu pensiynau.

- Os gwnaethoch chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn ar 1 Ebrill 1998 neu ar ôl hynny, gallwch ddewis cymryd eich pensiwn unrhyw bryd rhwng 55 a 75 oed.
- Os gwnaethoch chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn cyn 1 Ebrill 1998, mae'n rhaid i chi ddechrau cymryd eich pensiwn pan gyrhaeddwch chi'r oedran ymddeol arferol a dim hwyrach.

Ai 65 neu 67 ydych chi'n ei olygu ag oedran ymddeol?

Eich oedran ymddeol arferol yw naill ai oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu 65 oed, pa un bynnag yw'r hynaf.

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Os ydw i'n ymddeol yn gynnar, a fydd y gostyngiad pensiwn blynyddol yn gostwng bob blwyddyn nes byddaf yn 65 oed? Er enghraifft, unwaith y byddaf yn 65, a fydd y pensiwn ar y gyfradd lawn?

Na fydd, os ydych yn ymddeol yn gynnar, bydd eich pensiwn yn llai gan eich bod yn ei gymryd yn gynnar. Ni chaiff y gostyngiadau hyn eu cymryd o werth y pensiwn yn y dyfodol. Bydd eich pensiwn gostyngedig ond yn cynyddu mewn gwerth yn unol â chynyddiadau mewn costau byw arferol gan ddefnyddio'r mynegai prisiau defnyddwyr.

Nodwch y tabl canran gostyngiadau yn y Cwestiynau Cyffredin pan fyddwch yn ei anfon.

Y Nifer o Flynyddoedd a	Gostyngiad i'r Pensiwn	Gostyngiad i'r Cyfandaliad Awtomatig
0	0%	0%
1	4.9%	1.7%
2	9.3%	3.3%
3	13.5%	4.9%
4	17.4%	6.5%
5	20.9%	8.1%
6	24.3%	9.6%
7	27.4%	11.1%
8	30.3%	12.6%
9	33.0%	14.1%
10	35.6%	15.5%
11	39.5%	Amh
12	41.8%	Amh
13	43.9%	Amh

A yw'r gostyngiadau mewn pensiwn yn cael eu heffeithio gan gyfraniadau neu aelodaeth?

Nac ydi, nid yw'r gostyngiadau i'ch pensiwn yn cael eu heffeithio gan y cyfraniadau yr ydych wedi'u talu na'r aelodaeth yr ydych wedi'i datblygu. Mae'r gostyngiad i'ch pensiwn yn seiliedig ar faint oed ydych chi pan rydych yn dechrau cymryd eich pensiwn, a sawl blwyddyn a diwrnod ydych chi i ffwrdd o'r oedran ymddeol arferol.

Dydw i ddim yn deall y gwahaniaeth rhwng gostyngiad ar gyfer taliad cynnar, a pheidio â derbyn cynnydd yn eich pensiwn wrth ymddeol y gynnar.

Eich oedran ymddeol arferol yw naill ai oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu 65 oed, pa un bynnag yw'r hynaf. Os ydych yn ymddeol cyn y dyddiad hwn, caiff eich pensiwn ei ostwng gan ei fod yn cael ei dalu'n gynnar. Y pellaf i ffwrdd yw eich dyddiad ymddeol o'ch Oedran Ymddeol Arferol, y mwyaf fydd y gostyngiad (gweler y tabl uchod am fanylion ar y gostyngiadau ymddeoliad cynnar).

Mae rhai sefyllfaoedd lle gellir cynyddu pensiwn wrth ymddeol yn gynnar:

- Os yw eich cyflogwr yn talu am bensiwn ychwanegol
- Os yw eich cyflogwr yn hepgor gostyngiadau ymddeoliad cynnar neu'n defnyddio'r rheol 85 mlynedd cyn i chi droi'n 60 oed

Y cyflogwr fydd yn penderfynu ar hyn.

Gall cyflogwr ddyrannu cynnydd Haen 1 neu Haen 2 ar gyfer ymddeoliad ar sail afiechyd gan ddilyn y broses ymddeol ar sail afiechyd.

Os byddaf yn derbyn pensiwn is a chyfandaliad uwch, beth fyddai'r cyfandaliad di-dreth uchaf?

Bydd hyn yn wahanol i bob aelod, gan y bydd yn dibynnu faint o bensiwn ydych chi wedi'i gronni yn y cynllun. Gallwch edrych ar y manylion hyn ar borth aelodau'r gronfa, a bydd rhai cronfeydd yn gallu darparu amcangyfrifon mewn rhai amgylchiadau hefyd. Cysylltwch â'ch cronfa bensiwn am ragor o wybodaeth (manyion isod).

Os yw'r dyddiad yr wyf yn gadael fy swydd â'r Cyngor ar ddiwrnod olaf y mis, a fydd fy mhensiwn yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y mis nesaf? Mae'r wybodaeth a welais yn nodi y byddai'r pensiwn yn dechrau ar fy niwrnod gadael, ond siawns fy mod yn dal i weithio bryd hynny?

Yn eich enghraifft chi, byddai eich pensiwn yn daladwy o'r diwrnod ar ôl eich diwrnod olaf o wasanaeth. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cronfa bensiwn pryd hoffech chi ddechrau derbyn eich buddion pensiwn, yn arbennig os ydych yn ymddeol cyn eich oedran ymddeol arferol. Nodwch os gwelwch yn dda, gall gymryd hyd at 6-8 wythnos i dalu eich pensiwn, ond byddwn bob amser yn ôl-ddyddio i'ch dyddiad ymddeol. Telir y cyfandaliad cyn gynted â phosibl.

I gadarnhau felly, os ydw i'n cymryd ymddeoliad hyblyg, a fydd fy nghyflogwr yn sefydlu pensiwn newydd i mi yn awtomatig?

Bydd, os ydych yn cymryd ymddeoliad hyblyg, bydd eich cyflogwr yn parhau i gymryd cyfraniadau CPLIL gennych chi cyn belled bod eich contract cyflogaeth yn dri mis neu fwy a'ch bod dan 75 oed.

A allaf gymryd ymddeoliad hyblyg ar ôl oedran pensiwn y wladwriaeth?

Gallwch, gall unrhyw un rhwng 55 a 75 oed gymryd ymddeoliad hyblyg. Fodd bynnag, nodwch mai penderfyniad y cyflogwr fydd hyn ac mae'n rhaid cydymffurfio â'u polisi.

Os byddaf yn cymryd ymddeoliad hyblyg, credaf fod yn rhaid i mi gymryd fy holl hawliau pensiwn a gronnwyd hyd at 2008. Os byddaf yn dewis gadael y gweddill am ychydig flynyddoedd, a fydd hynny'n lleihau'r gostyngiadau ymddeoliad cynnar?

Gelwir y broses hon yn 'tynnu i lawr yn raddol'. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr nodi yn eu polisi ymddeoliad hyblyg p'un a ydynt yn caniatáu i arian gael ei dynnu i lawr yn raddol neu ddim.

Rydych yn gywir yn dweud, os ydych yn dewis cymryd ymddeoliad hyblyg a bod y cyflogwr yn caniatáu i arian gael ei dynnu i lawr yn raddol, bod yn rhaid i chi gymryd eich holl fuddion pensiwn a gronnwyd hyd at 2008. Ar gyfer buddion a gronnwyd ar ôl 2008, gallwch ddewis eu cymryd yn rhannol, yn llawn, neu ddim o gwbl.

Os ydych yn penderfynu cymryd gweddill eich pensiwn cyn i chi gyrraedd oedran ymddeol arferol, bydd buddion y pensiwn yn llai. Yr agosaf ydych chi at eich oedran ymddeol arferol pan fyddwch yn eu cymryd, y lleiaf fydd y gostyngiad. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw fuddion yr ydych eisoes yn eu derbyn yn cael eu heffeithio.

A fedrwch chi fynd dros y rheolau diswyddo eto?

Os ydych chi dros 55 oed ac wedi'ch diswyddo neu'n gadael yn sgil effeithlonrwydd y gwasanaeth, mae'n rhaid i chi dderbyn eich pensiwn yn syth. O dan y rheolau presennol, ni fydd y pensiwn yn cael ei ostwng ar gyfer taliad cynnar.

Er nad yw'r pensiwn yn cael ei ostwng, ni fydd yn cael ei gynyddu'n awtomatig chwaith i roi'r pensiwn y gallech fod wedi'i gronni i chi pe baech yn parhau i dalu'r cyfraniadau tan eich oedran ymddeol arferol.

Os ydych wedi talu cyfraniadau ychwanegol er mwyn gwella gwerth eich pensiwn, bydd y rhan hon o'ch pensiwn yn llai pe baech yn gadael cyn eich oedran ymddeol arferol.

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Mae'n bosibl y byddwch hefyd yn derbyn taliad diswyddo gan eich cyflogwr. Nid yw hyn yn gysylltiedig â'ch pensiwn o gwbl. Dylech siarad â'r Adran AD am eich taliadau diswyddo.

A yw'r cyfeiriad at ddiswyddo ar sleid 6 yn berthnasol i ddiswyddiad gwirfoddol?

Ydy, mae'r un rheolau yn berthnasol boed yn ddiswyddiad gwirfoddol neu orfodol.

Os ydw i'n cael fy niswyddo ac yn hŷn na 55 oed, a fydd fy nghronfa CPLIL yn mynd drwy'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer arian parod di-dreth ychwanegol ac opsiynau eraill?

Bydd, beth bynnag yw'r math o ymddeoliad, bydd eich cronfa CPLIL yn anfon amcangyfrif ymddeol atoch a ffurflenni i'w cwblhau gennych. Os ydych chi'n defnyddio'r porth pensiwn ar-lein, byddwn yn anfon e-bost atoch chi gyda chyfarwyddiadau ar sut i gael gafael ar y pecyn. Fel arall fe wnawn ei bostio i'ch cyfeiriad cartref. Bydd yn rhaid i chi lenwi a dychwelyd y ffurflenni ymddeol i roi gwybod i ni pa opsiwn rydych wedi'i ddewis.

A fydd unrhyw daliadau diswyddo'n cael eu defnyddio i brynu pensiwn CPLIL ychwanegol?

Ni ellir defnyddio tâl diswyddo statudol i brynu pensiwn CPLIL ychwanegol. Dylai eich cyflogwr ei dalu'n uniongyrchol i chi.

Fodd bynnag, os yw eich cyflogwr yn rhoi tâl diswyddo ychwanegol / dewisol i chi ar ben y swm statudol, gallwch ddefnyddio'r tâl diswyddo i brynu aelodaeth CPLIL ychwanegol, os oes gan eich cyflogwr bolisi sy'n caniatáu hynny. Dylech siarad ag adran AD eich cyflogwr yn uniongyrchol i weld beth yw eu polisi nhw ar hyn. Os ydynt yn cynnig hynny, byddai'r tâl diswyddo ychwanegol yn cael ei dalu i'ch cronfa CPLIL er mwyn ei drosi i bensiwn CPLIL ychwanegol.

Os oes gennyf bensiwn gohiriedig ag ALL arall a'm bod yn cael fy niswyddo, a yw'r pensiwn gohiriedig yn ogystal â'r cynllun cyfredol yn destun rheolau diswyddo?

Os ydych dros 55 oed ac yn cael eich diswyddo, y cofnod pensiwn CPLIL yr ydych yn talu i mewn iddo am y swydd yw'r unig un a delir ar unwaith i chi. Ni chaiff unrhyw bensiwn gohiriedig neu gofnod pensiwn gweithredol arall nad yw'n gysylltiedig â'r swydd a gollir ei dalu fel rhan o'r broses ddiswyddo.

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Os byddaf yn gadael fy nghyflogwr ac yn cymryd fy mhensiwn, a oes modd i mi weithio iddyn nhw'n achlysurol yn y dyfodol a pharhau i dderbyn fy mhensiwn?

Os ydych yn dechrau derbyn eich pensiwn CPLIL, ac yna'n cael swydd newydd gyda'r un cyflogwr yn y dyfodol, fe all hynny newid eich incwm pensiwn. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cronfa CPLIL am eich swydd newydd, p'un a ydych yn dewis ail-ymuno â'r cynllun pensiwn ai peidio.

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid lleihau eich CPLIL neu ddod â'r pensiwn i ben yn ddibynnol ar bolisi eich cronfa CPLIL. Gofynnwch i'ch cronfa CPLIL yn uniongyrchol beth yw eu polisi ar hyn.

Beth mae'r Rheol 85 yn ei olygu?

Os ydych chi'n gymwys am y Rheol 85 ac yn ymddeol yn gynnar, neilltuir cyfran o'ch pensiwn ac ni chaiff ei lleihau.

Dim ond os oeddech yn talu cyfraniadau pensiwn i'r CPLIL cyn 1 Hydref 2006 y byddwch yn gymwys ar gyfer y Rheol 85. Rydych yn bodloni'r Rheol 85 os yw:

- Eich oedran pan fyddwch chi'n cymryd eich buddion CPLIL + Nifer y blynyddoedd yr ydych wedi talu cyfraniadau pensiwn i mewn i'r CPLIL = 85 neu fwy

A yw'r Rheol 85 yn berthnasol heb ganiatâd y cyflogwr os ydw i'n 55+ oed?

Nac ydi. Os ydych chi'n bodloni'r Rheol 85 ac yn dymuno cymryd eich pensiwn cyn i chi droi'n 60 oed, bydd yn rhaid i chi gael caniatâd eich cyflogwr er mwyn gweithredu'r rheol. Os nad yw eich cyflogwr yn rhoi caniatâd, gallwch barhau i gymryd eich pensiwn, ond fe fydd yn is na'r swm y byddech wedi'i dderbyn pe bai'r Rheol 85 wedi'i gweithredu.

Nid oes angen caniatâd cyflogwr ar ôl i chi droi'n 60.

Mae'r Rheol 85 yn berthnasol heb ganiatâd y cyflogwr i bobl sy'n 60 oed neu'n hŷn. A fydd y cyfyngiad oedran hwn yn cynyddu o fis Ebrill 2028 yn unol â'r cynnydd i'r oedran ymddeol isaf i 57?

Na fydd, ni fydd y cynnydd i'r oedran ymddeol isaf yn cael effaith ar hyn.

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Rheol 85 = eich oedran + blynyddoedd o wasanaeth. A yw hyn yn golygu blynyddoedd o wasanaeth neu nifer y blynyddoedd yr ydych wedi bod yn talu cyfraniadau pensiwn?

Mae'r Rheol 85 yn seiliedig ar faint o flynyddoedd yr ydych wedi bod yn talu cyfraniadau CPLIL.

A yw'r Rheol 85 yn berthnasol i wasanaeth parhaus yn unig neu gyfanswm y gwasanaeth llywodraeth leol?

Bydd y Rheol 85 yn berthnasol i gyfanswm yr aelodaeth CPLIL, hyd yn oed os oes bylchau yn yr aelodaeth honno. Mae'n rhaid i'r aelodaeth fod ar un cofnod CPLIL ac:

- Eich oedran pan fyddwch chi'n cymryd eich buddion CPLIL + Nifer y blynyddoedd yr ydych wedi talu cyfraniadau pensiwn i mewn i'r CPLIL = 85 neu fwy

Os oes gennych chi sawl cofnod CPLIL gydag un neu fwy o gronfeydd, gall hyn effeithio ar b'un a ydych yn bodloni'r Rheol 85 neu ddim.

A yw eich cyflogwr yn gwybod os yw'r rheol 85 yn eich gwarchod, neu ai cyfrifoldeb yr unigolyn yw darganfod hyn?

Ni fydd eich cyflogwr yn gwybod hyn. Os nad ydych chi'n siŵr p'un a yw'r rheol 85 mlynedd yn eich gwarchod neu ddim, dylech siarad â'ch cronfa CPLIL. Gallwch ddod o hyd i'r manylion cyswllt ar ddiwedd y Cwestiynau Cyffredin hyn.

A yw taliadau pensiwn yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr?

Caiff pensiynau CPLIL eu haddasu yn unol â chwyddiant bob mis Ebrill. Fel arfer, caiff y rhain eu haddasu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o'r mis Medi cynt. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cadarnhau'r union ganran yn swyddogol bob mis Chwefror.

Cwestiynau Eraill

A yw gwasanaeth yn golygu'r pensiwn penodol hwn? Neu ers faint ydych chi wedi bod yn cael eich cyflogi?

Pan fydd cronfeydd CPLIL yn sôn am wasanaeth (a elwir hefyd yn aelodaeth), maent yn golygu'r cyfnod yr ydych wedi bod yn talu cyfraniadau CPLIL. Gall hyn fod yn wahanol i'r cyfnod yr ydych wedi bod yn cael eich cyflogi.

A oes modd newid swydd a phenderfynu defnyddio'r un darparwr Pensiwn?

Gallwch ond bod yn aelod o'r CPLIL os yw eich cyflogwr yn cynnig y CPLIL ac nad yw eich swydd yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn arall (er enghraifft, y Pensiwn Athrawon). Ni allwch gyfrannu at y cynllun dan unrhyw amgylchiadau eraill.

A yw'r adnodd rhagweld buddiannau yn cynnwys asesiad McCloud?

Holwch eich cronfa am fanylion ynglŷn â hyn.

Os ydych chi'n troi'n 55 cyn Ebrill 2018, a yw'r rheol ymddeoliad cynnar 57 yn berthnasol?

Yr oedran pensiwn isaf arferol yw'r cynharaf y gallwch gymryd eich pensiwn. Yr oedran pensiwn isaf arferol yw 55, ond bydd yn cynyddu i 57 ar 6 Ebrill 2028. Nid yw'r newid hwn yn berthnasol os oes rhaid i chi gymryd eich pensiwn yn gynnar oherwydd salwch.

Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar y newidiadau i'r oedran pensiwn isaf arferol (NMPA). Daw'r ymgynghoriad i ben ar ddiwedd mis Rhagfyr 2025. Os oes angen i chi wneud penderfyniad am eich ymddeoliad cyn i'r Llywodraeth gymeradwyo rheolau newydd NMPA, cysylltwch â'ch cronfa bensiynau.

A yw'r pensiwn wedi'i warchod ar gyfer y rhai sy'n bwriadu cymryd eu pensiwn yn 55 oed ond sydd bellach yn gorfod aros tan maent yn 57 oed?

Fe allech gael eich gwarchod rhag y cynnydd mewn Isafswm Oedran Pensiwn Arferol os gwnaethoch ymuno â'r CPLIL yng Nghymru a Lloegr cyn 4 Tachwedd 2021. Gallech hefyd gael eich gwarchod os gwnaethoch drosglwyddo pensiwn blaenorol i'r CPLIL, os yw amodau penodol wedi'u bodloni. Rydym yn aros am benderfyniad gan y Llywodraeth ynghylch p'un a ddylid cyflwyno gwarchodaeth yn y rheolau CPLIL i ganiatáu i aelodau sy'n gymwys am warchodaeth barhau â'u hawl i gymryd eu pensiwn CPLIL o 55 oed.

A ydym yn gwybod a oes cynlluniau i gynnig cyfnod pontio ar gyfer newid yr oedran pensiwn isaf o 55 i 57?

Gweler uchod os gwelwch yn dda.

A oes uchafswm o ran nifer y blynyddoedd o dalu i mewn i'r CPLIL lle na fyddai unrhyw fuddion pellach, er enghraifft, pe baech wedi bod yn aelod am 40 mlynedd?

Nag oes, nid oes uchafswm o ran gwasanaeth yn y CPLIL. Yr hiraif yw'r cyfnod y byddwch yn cyfrannu at y CPLIL, y mwyaf y byddwch yn ychwanegu at eich cyfrif pensiwn ac yn cynyddu eich buddion ar gyfer eich ymddeoliad.

Os nad ydych yn cael cyfandaliad gan bensiwn arall ond yn derbyn taliadau rheolaidd, a oes angen rhannu hyn?

Yng nghyd-destun buddion marwolaeth: Os byddwch yn marw cyn eich gŵr, gwraig, neu bartner, yna byddan nhw'n derbyn rhan o'ch pensiwn blynyddol fel pensiwn goroeswr i'w hunain. Caiff hwn ei dalu iddynt unwaith y byddwch wedi marw.

Yng nghyd-destun ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil: Os bydd llysoedd y gyfraith yn penderfynu bod yn rhaid rhannu rhan o'ch buddion CPLIL gyda'ch cyn-bartner, byddant yn derbyn canran o'ch pensiwn blynyddol (a chyfandaliad o bosibl hefyd) ar y pwynt lle cyflwynir y gorchymyn rhannu pensiwn.

Beth fyddai'n digwydd i'm pensiwn pe bawn yn marw heb ŵr neu wraig?

Gellir talu pensiwn y partner i rywun sy'n briod i chi, yn bartner sifil i chi neu'n cyd-fyw â chi (os bodlonir y meini prawf cymhwyso).

Gall pensiwn plentyn hefyd fod yn daladwy i blentyn cymwys. Gellir dod o hyd i'r meini prawf cymhwyso yma:

<https://www.lgpsmember.org/faqs/will-a-pension-be-paid-to-my-children-when-i-die/> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Telir grant marwolaeth mewn un swm os ydych chi'n iau na 75 oed pan fyddwch chi farw a bod un o'r isod yn berthnasol:

- eich bod yn dal i dalu cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- eich bod wedi ymadael â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ond heb ddechrau derbyn eich pensiwn
- eich bod wedi ymadael ar ôl 31 Mawrth 2008 ac wedi bod yn derbyn eich pensiwn ers llai na deng mlynedd
- eich bod wedi ymadael â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol rhwng 1 Ebrill 1998 a 31 Mawrth 2008 ac wedi bod yn derbyn eich pensiwn ers llai na phum mlynedd.

Os gadawoch chi cyn 1 Ebrill 1998 ac yn derbyn eich pensiwn, efallai y bydd grant marwolaeth yn daladwy pan fyddwch chi farw. Mae cyfrifo hyn yn fater cymhleth a gallwch ofyn i'ch cronfa bensiwn leol am amcangyfrif o'r swm a allai fod yn daladwy.

Gallwch enwebu buddiolwyr ar gyfer eich grant marwolaeth - cysylltwch â'ch cronfa bensiynau am ffurflen enwebu.

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Dolenni a manylion cyswllt defnyddiol

Gwefan aelodau CPLIL Cenedlaethol 	www.lgpsmember.org Cyfrifianellau, fideos, cwestiynau cyffredin, gwybodaeth gyffredinol am y cynllun (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)
 Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund	cronfabensiynauclwyd.org.uk pensiynau@siryfflint.gov.uk
 Oxfordshire Pension Fund www.oxfordshire.gov.uk/pensions	www.oxfordshire.gov.uk/business/oxfordshire-pension-fund Pension.services@oxfordshire.gov.uk
 Shropshire County Pension Fund	www.shropshirecountypensionfund.co.uk pensions@shropshire.gov.uk